

Ystyriaeth pellach i Ddeiseb Mynyddoedd Pawb (P-04-632) 8fed o Ragfyr, 2015

Sylwadau *Mynyddoedd Pawb* yn dilyn yr ohebiaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Deisebu

Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Rydym yn falch fod y Dirprwy Weinidog yn derbyn bod enwau lleoedd Cymraeg yn adnoddau pwysig o ran adnabod a rheoli ein hasedau hanesyddol, ac yn ychwanegu at arbenigrwydd diwylliannol Cymru.

Rydym yn falch fod gwellianau wedi cael eu cymeradwyo i'r Bil Amgylchedd Hanesyddol, gan ddiolch yn fawr am hynny i *Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru* ac eraill am eu cefnogaeth a'u tystiolaeth berthnasol.

Rydym yn siomedig nad oes yma ymgais i fynd i'r afael â'r patrwm sy'n datblygu'n gynyddol o roi enw ar fusnes a fyddai ymhen amser yn debygol iawn o newid enwau llafar y lleoliadau, enghraifft ddiweddar o'r bygythiad yma oedd y sôn am newid enw Plas Glynllifon yn Arfon i *Wynborune*. Mae hwn yn adeilad hanesyddol a restrwyd yn Gradd 1 gan Cadw. Mae'n ddifffyg mawr yn y system restru bod yn adeilad yn cael ei amddiffyn ond nid ei enw.

Rydym yn falch fod y gweinidog wedi cael gair â'r gweinidog dros **Gyfoeth Naturiol a Chynllunio** a Phrifweinidog Cymru sydd a chyfrifoldeb dros **yr iaith Gymraeg**, byddem hefyd yn gwerthfawrogi ymateb uniongyrchol i'n deiseb ganddynt yn ogystal ag ymateb gan y gweinidog **Addysg**.

Fel y gwyddom mae cynydd mewn **addysg** Gymraeg ar hyd a lled Cymru, er hyn rydym yn gwbl hyderus y byddai'r ysgolion Cymraeg yn ategu ei bod yn resyn nad oes darpariaeth ddigonol o siaradwyr Cymraeg ar gael yn ein canolfanau awyr agored ar gyfer darparu gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig y canolfanau rheinny sydd wedi eu harianu gan y Cynulliad Cenedlaethol. Un enghraifft ydi *Surf Snowdonia* a agorwyd yn ddiweddar yng Nghonwy.

Dylid adeiladu'n sylweddol ar y twf sydd wedi bod dros y ddeng mlynedd diwethaf yn y nifer o siaradwyr Cymraeg sy'n ennill bywoliaeth yn y sector gweithgareddau awyr agored a thwristiaeth amgylcheddol (**tystiolaeth ar gael gan *Menter Iaith Conwy***). Rydym yn fwy ymwybodol nag erioed o bwysigrwydd gwarchod a hyrwyddo enwau lleoedd cynhenid er mwyn gwrthsefyll y bygythiad cynyddol gan ddringwyr, caiacwyr, syrffwyr, beicwyr mynydd ayyb sydd yn bathu enwau Saesneg ar ddringfeydd, pyllau a llwybrau gan ddiystyru enwau Cymraeg gwreiddiol sy'n gwanhau arbenigrwydd diwyllianol ein gwlad. Un enghraifft o hyn yw'r cyfeiriad at Y Glyderau fel "The Glyders" ar wefanau *TripAdvisor*, *Summitpostgroup* a *Go4awalk*. Gan gyfeirio at ond ychydig bach iawn o enghreifftiau, mae'r enwau canlynol yn dod yn fwy cyffredin:

Llyn Bochlwyd, Conwy - "Australia Lake"

Tryfan, Eryri - "Triffim"

Bwthyn Ogwen, Nant Ffrancon - "Oggy Cottage"

Tyntywyn, Ynys Môn - "Bog blog beach"

Traeth Llydan, Ynys Môn - "Broad".....

Rhaid pwysleisio unwaith eto' r potensial gwirioneddol sydd yma i gyflwyno'r Gymraeg a hanes Cymru i dwristiaid yn ogystal â phobl leol trwy gyfrwng ein enwau lleoedd. Gyda'n gilydd fe allwn, wrth ddatlu enwau ein tirwedd, drawsnewid agweddau a phontio rhwng y siaradwyr Cymraeg â'r di-Gymraeg, yn bobl leol neu'n ymwelwyr. Credwn fod gan enwau ein tirwedd a'n lleoedd ran allweddol mewn sicrhau ymwybyddiaeth o hanes a chwedloniaeth ein gwlad, a'n defnydd o'r Gymraeg i'r dyfodol.

Ymatebion na ddaethant i law

Rydym yn siomedig nad oes ymateb wedi dod hyd yma gan **Croeso Cymru** a **Cyngrhair Twristiaeth Cymru**, yn siomedig hefyd nad oes ymateb wedi dod gan **Cadw** (gweler yn ein ymateb 06/10/15) gofynwn yn garedig i chi barhau i gysylltu â nhw er mwyn ysgogi trafodaeth adeiladol o ganlyniad i'n deiseb.

Rydym yn gofyn am ystyriaeth uniongyrchol hefyd i amcanion y ddeiseb gan y Gweinidog **Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**, y gweinidog sydd a chyfrifoldeb dros **Addysg**, y gweinidog sydd a chyfrifoldeb dros **Gyfoeth Naturiol a Chynllunio** a Phrifweinidog Cymru sydd a chyfrifoldeb dros **yr iaith Gymraeg**. Er mwyn gwireddu'r amcanion sydd yn ein deiseb mae cyd-weithio rhwng yr holl adrannau uchod yn angenrheidiol.

Amcanion ein ymgyrch: (gweler mewn mwy o fanylder gydag enghreifftiau yn ein hymateb 06/10/15)

1. Ysgogi parch a diddordeb yn yr iaith Gymraeg ac i sicrhau a chynyddu'r defnydd ohoni.
2. Cynyddu'r ymdeimlad o hunaniaeth ymysg cymunedau lleol drwy rannu cyfoeth ein treftadaeth ddiwyllianol gydag eraill.
3. Ennyn diddordeb ac ymwybyddiaeth ymwelwyr o gyfoeth ein treftadaeth leol a thrwy hynny ddod a buddion addysgol ac economaidd i ardaloedd.

Edrychwn ymlaen at drafodaethau pellach.

Diolch yn fawr.